

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

(MEMORANDWM RHIF 5)

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (“SLCM”) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (“y Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 22 Medi 2022, a gosodwyd [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol \(“LCM”\)](#) yn seiliedig ar y Bil fel y’i cyflwynwyd.
3. Cyflwynwyd 15 o welliannau¹ gan Lywodraeth y DU i’r Bil ar 16 Tachwedd, i’w hystyried yng nghyfnod pwyllgor Tŷr Cyffredin, ac ystyriwyd y rhain yn yr [LCM\(2\) atodol](#) a osodwyd ar 21 Rhagfyr.
4. Ar 11 Ionawr 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU 19 o welliannau pellach² i’r Bil, cyn y cyfnod adrodd, a gynhaliwyd ar 18 Ionawr. Ystyriwyd y rhain yn yr [LCM\(3\) atodol](#) a osodwyd ar 6 Chwefror.
5. Ar 16 Chwefror, cyflwynodd Llywodraeth y DU 13 o welliannau pellach³, ac ystyriwyd y rhain yn yr [LCM\(4\) atodol](#) a osodwyd ar 10 Mawrth.
6. Cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 28 Mawrth a phleidleisiodd yr Aelodau i wrthod rhoi cydsyniad i’r Bil.
7. Ar 10⁴ a 19 Mai⁵ cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach, i’w hystyried yng nghyfnod adrodd a thrydydd darlleniad Tŷr Arglwyddi.
8. Mae’r Bil, fel y’i dygwyd ymlaen o Dŷr Arglwyddi ar ôl y trydydd darlleniad ar 22 Mai, ar gael yn [Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\) \(parliament.uk\)](#).
9. Er mwyn cadw at y Rheolau Sefydlog a’n hymrwymiad i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd, nid yw’r SLCM hwn ond yn ystyried gwelliannau’r Llywodraeth a fabwysiadwyd yng nghyfnod adrodd a thrydydd darlleniad Tŷr Arglwyddi.

¹ Cyfnod pwyllgor: Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 – Gwelliannau a gyflwynwyd: [retained_rm_pbc_1116.pdf \(parliament.uk\)](#)

² Cyfnod adrodd: Dydd Mercher 11 Ionawr 2023 – Papur gwelliannau: [retained_rep_rm_0111.pdf \(parliament.uk\)](#)

³ Rhestr o welliannau wedi’u gosod mewn trefn: [HL Bill 89—I \(parliament.uk\)](#)

⁴ Rhestr o welliannau wedi’u gosod mewn trefn: [HL Bill 117—I\(Rev\) \(parliament.uk\)](#)

⁵ Rhestr o welliannau i’w cyflwyno yn y trydydd darlleniad wedi’u gosod mewn trefn: [HL Bill 139—I \(parliament.uk\)](#)

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyflwynwyd gwelliannau nad oeddent yn welliannau gan y Llywodraeth cyn cyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Cytunwyd ar dri o'r rhain ar 15 Mai ac ar un ohonynt ar 17 Mai. Serch hynny, nid oedd digon o amser i ystyried y rhain yn llawn, ac mae'n bosibl y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu newid ymhellach, neu eu gwrthod, pan fydd Tŷ'r Cyffredin yn ystyried gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi, sydd yn yr amserlen ar gyfer 24 Mai. Felly, mae'r SLCM hwn yn canolbwyntio ar welliannau'r Llywodraeth yn unig.
11. Mae hyn yn cynnig cyfle i'r Senedd ystyried newidiadau i'r Bil, er bod yr amserlen yn gywasgedig iawn oherwydd penderfyniad Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen yn gyflym ar ôl trydydd darlleniad Tŷ'r Arglwyddi. Os bydd amser yn caniatáu, mae hefyd yn gyfle i'r Senedd gyflawni ei rôl o ran ystyried rhoi cydsyniad i'r Bil hwn gan Lywodraeth y DU, sydd wedi'i ddiwygio'n sylweddol, wrth iddo fynd yn gyflym drwy'r camau yn Senedd y DU.

Amcan(ion) Polisi

12. Disgrifiwyd amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir ("REUL") yn ei dogfen Benefits of Brexit ym mis Ionawr 2022, yn amlinellu 'Our intent is to amend, replace, or repeal all the retained EU law that is not right for the UK'⁶.
13. Er nad yw amcan polisi cyffredinol y Bil wedi newid ers ei ddiben gwreiddiol, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi 'dull gweithredu newydd' yn ddiweddar. Mae'r dull hwn yn cynnwys dileu'r ddarpariaeth fachlud 'awtomatig' bresennol yn y Bil a rhoi yn ei lle restr o gyfreithiau'r UE a ddargedwir a fydd yn cael eu dirymu o dan y Bil ar ddiwedd 2023⁷ (gweler paragraff 18 ac Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion).

Crynodeb o'r Bil

14. Mae'r Bil yn enw'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac mae'r cyfrifoldeb dros lywio'r Bil bellach wedi'i drosglwyddo i'r Adran Busnes a Masnach newydd.
15. Mae prif ddarpariaethau'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cwmpasu'r canlynol:
- Diddymu (machlud) neu gymhathu REUL erbyn diwedd 2023.
 - Diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE o gyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
 - Hwyluso llysoedd domestig i wyro oddi wrth gyfraith achosion a ddargedwir.
 - Darparu mecanwaith i Swyddogion Cyfraith Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ymyrryd mewn achosion ynglŷn â REUL, neu eu hatgyfeirio at lys apêl, pan fo'n berthnasol.

⁶ [The Benefits of Brexit: How the UK is taking advantage of leaving the EU \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/103442/the-benefits-of-brexit-how-the-uk-is-taking-advantage-of-leaving-the-eu.pdf)

⁷ [Datganiadau ysgrifenedig – Cwestiynau, atebion a datganiadau ysgrifenedig - UK Parliament](https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/economic-affairs-and-business-affairs/written-questions/written-questions-index/)

- Diddymu hawliau a rhwymedigaethau cyfraith yr UE sydd ag effaith uniongyrchol yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Sefydlu rheol flaenoriaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (RDEUL) gael ei dehongli a'i chymhwyso'n gyson â deddfwriaeth ddomestig.
- Israddio statws RDEUL at ddiben ei diwygio'n haws.
- Creu cyfres o bwerau sy'n caniatáu i REUL gael ei dirymu neu ei disodli, ei hailddatgan neu ei diweddarau a'i dileu neu ei diwygio i leihau beichiau.

16. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("EUWA"), sy'n ddeddfiad gwarchoddedig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae cymalau amrywiol o fewn y Bil (fel yr amlinellir isod) yn addasu'r darpariaethau presennol yn EUWA, ac o'r herwydd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, yr LCM(2) atodol, yr LCM(3) atodol a'r LCM(4) atodol:

17. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn disgrifio gwelliannau Llywodraeth y DU a ystyrir yn yr LCM atodol a'u heffaith. Fodd bynnag, ar y cyfan gellir rhannu'r gwelliannau fel a ganlyn:

a. Gwelliannau 10 Mai

- Gwelliannau'n ymwneud â'r ddarpariaeth fachlud.
- Gwelliannau i estyn y pŵer i wneud darpariaethau canlyniadol a darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed i'r llywodraethau datganoledig.
- Gwelliannau i gymal 8 (Rôl llysoedd).
- Gwelliannau i gymal 24 (Rhychwant ac enw byr).

b. Gwelliannau 19 Mai

- Gwelliant i fewnosod cymal newydd (Dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir).

18. Ystyrir bod y gwelliannau i'r darpariaethau machlud yng nghymal 1 o'r Bil, ac Atodlen 4 iddo, i ddileu'r ddarpariaeth bresennol a mewnosod darpariaeth newydd i ddarparu bod y ddeddfwriaeth sydd i'w diddymu ar 31 Rhagfyr 2023 fel y'i rhestrir mewn Atodlen newydd (Machlud is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir) i'r Bil, a phŵer newydd i eithrio deddfwriaeth a restrir yn yr Atodlen newydd rhag dirymu, yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas Rheol Sefydlog ("RhS") 29. Credir hyn am yr un rhesymau ag a nodir yn y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal 1 gwreiddiol o'r Bil, ac Atodlen 3 (Atodlen 4 bellach) iddo, sydd i'w weld ym mharagraffau 13 a 14 o'r LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd, hy, i'r graddau y mae at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac i'r graddau y mae hyn yn berthnasol i feysydd datganoledig. I'r graddau y rhoddir y pŵer i wneud rheoliadau a grëir o dan

y cymal hwn i Weinidogion Cymru, mae hefyd yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Yn unol â gwelliannau 9 a 13, nid yw cymalau 2 a 3 bellach yn 'ddarpariaeth berthnasol' gan y byddant yn cael eu hepgor o'r Bil. Felly, nid ydym yn ystyried y dylid gosod LCM atodol ar gyfer y gwelliannau hyn.

19. Ystyrir bod y gwelliannau i gymalau 20, 21 a 23 ac Atodlen 4, i estyn y pwerau yn y Bil i wneud darpariaethau canlyniadol a darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed i'r Gweinidogion datganoledig, yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29. Credir hyn am yr un rhesymau ag a nodir yn y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymalau 19, 20 a 22 a'r Atodlen 3 wreiddiol (cymalau 20, 21 a 23 ac Atodlen 4 bellach) sydd i'w weld ym mharagraffau 35, 37, 41, a 70 o'r LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd, a pharagraff 10 o'r SLCM a osodwyd ar 21 Rhagfyr, hy, i'r graddau y mae at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac i'r graddau y mae hyn yn berthnasol i feysydd datganoledig. I'r graddau y rhoddir y pŵer i wneud rheoliadau a grëir o dan y cymalau hyn i Weinidogion Cymru, mae hefyd yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.
20. Mae'r gwelliannau i gymalau 8 a 24 yn addasu cymalau a ystyriwyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29 at ddibenion yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd, a'r LCM atodol a osodwyd ar 6 Chwefror. Rydym o'r farn bod angen LCM atodol mewn perthynas â'r gwelliannau i'r cymalau hyn, ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth berthnasol.
21. Ystyrir bod y gwelliant i fewnosod cymal newydd 'Dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir' yn y Bil yn 'ddarpariaeth berthnasol' i'r graddau y gallai adroddiadau o'r fath (sydd i nodi cynnydd a wneir o ran dirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir, yn ogystal â chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer dirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir) gynnwys REUL mewn meysydd datganoledig, ac felly mae'n cael effaith ehangach ar faterion datganoledig.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

22. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yn sgil cyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi wedi dileu'r darpariaethau machlud awtomatig o'r Bil ac wedi rhoi Atodlen yn eu lle sy'n rhestru offerynnau y caniateir iddynt fachlud. Mae'r ffordd newydd hon o weithredu yn newid natur y Bil yn ei hanfod, ac yn dileu'r risg o golli REUL yn anfwriadol.
23. Er bod y newid yn y ffordd o weithredu i'w groesawu, mae pryderon ynghylch y sail resymegol gyffredinol am y Bil yn parhau. Mae cymalau sy'n dileu'r egwyddorion sefydledig a ddefnyddid i ddehongli REUL a chyfraith yr UE yn fwy cyffredinol hyd yma ("y darpariaethau dehongli") yn parhau yn y Bil. Mae pwerau yn y Bil i ddisodli neu i ddiweddarau REUL yn destun pryder o hyd, ac mae'r Bil yn cynnwys rhai darpariaethau o hyd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annerbyniol yn gyfansoddiadol, a hynny am eu bod yn rhoi pwerau cydredol i Weinidogion y Goron mewn meysydd datganoledig heb ofyniad ar wyneb y Bil i sicrhau cydsyniad Gweinidogion

Cymru cyn arfer y pwerau hynny. Cafodd y pryderon hyn eu codi ym mharagraffau 84, 88, 89 a 90 o'r LCM gwreiddiol dyddiedig 3 Tachwedd.

24. Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru a nodir yn yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd⁸ wedi newid gan fod y Bil yn parhau i beri'r pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol difrifol hyn. Mae'r pryderon hyn wedi'u cyfleu i Lywodraeth y DU, ond nid yw gwelliannau dilynol i'r Bil wedi mynd i'r afael â hwy'n ddigonol.
25. Ar sail y ffaith nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â'n pryderon sylfaenol yn ddigonol, hyd yn oed yn sgil cyfres o welliannau, gan gynnwys gwelliannau sy'n gwneud newidiadau o sylwedd i'r Bil (fel y nodir yn yr LCM atodol hwn ac y crynhoir ym mharagraffau 27 i 29 isod), ni fydd modd inni argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Goblygiadau ariannol

26. Nid yw'n glir o hyd ar wyneb y Bil a fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu i'r Senedd, yn deillio o'r pwerau o dan y Bil.

Casgliad

27. Er gwaethaf y gwelliannau, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau o hyd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annerbyniol, gan gynnwys y rhai sy'n dileu'r egwyddorion sefydledig sydd i'w ddefnyddio i ddehongli REUL ("y darpariaethau dehongli"), a'r rhai sy'n rhoi pwerau cydredol i Weinidogion y Goron mewn meysydd datganoledig heb ofyniad ar wyneb y Bil i sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer y pwerau hynny.
28. Byddai'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi i Weinidogion y Goron bwerau i ddiwygio neu ddirymu REUL mewn meysydd datganoledig (gan gynnwys REUL a wnaed gan y Senedd) tan 23 Mehefin 2026, heb gydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd. Mae Gweinidogion Cymru wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU i gynnwys gofyniad yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gael cydsyniad cyn defnyddio pwerau cydredol.
29. Fel y nodir uchod, mae'r gwelliannau i gymalau 1, 8, 20, 21, 23, 24 ac Atodlen 4, a mewnosod Atodlen newydd (Machlud is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir) a chymal newydd (Dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir) yn y Bil, yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd, neu sy'n effeithio fel arall ar feysydd datganoledig, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, o gofio ein pryderon parhaus am y Bil, nad yw'r gwelliannau'n mynd i'r afael â hwy, nid ydym mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i'r Bil.

Mick Antoniw AS

⁸ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) [MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL \(senedd.cymru\)](#)

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

26 Mai 2023

Atodiad 1 - Gwelliannau Llywodraeth y DU y cytunwyd arnynt yng nghyfnod adrodd a thrydydd darlleniad Tŷ'r Arglwyddi.

| Rhif y gwelliant ⁹ | Cymal sy'n cael ei ddiwygio | Sylwadau |
|---|--|---|
| Gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 10 Mai | | |
| Gwelliannau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth fachlud | | |
| 1 | Cymal 1(1) (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir) | Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r cymal 1(1) gwreiddiol o'r Bil, sy'n darparu ar gyfer machlud awtomatig deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ac is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE, ac yn rhoi darpariaeth newydd yn ei le sy'n darparu bod y ddeddfwriaeth sydd i'w dirymu ar 31 Rhagfyr 2023 yn cael ei rhestru mewn Atodlen newydd (Machlud is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir) i'r Bil, fel y manylir ymhellach isod. |
| 5 | Cymal 1(3) ac 1(4) (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir) | Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r cymalau 1(3) ac 1(4) gwreiddiol, sy'n darparu ar gyfer diffiniadau o "is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE" (" <i>EU-derived subordinate legislation</i> ") ac "is-ddeddfwriaeth ddomestig" (" <i>domestic subordinate legislation</i> ") fel cyfeiriadau yn y cymal 1(2) gwreiddiol, o ganlyniad i'r gwelliant uchod, ac yn mewnosod darpariaeth newydd sy'n darparu pŵer i awdurdod cenedlaethol perthnasol eithrio deddfwriaeth a restrir yn yr Atodlen newydd rhag cael ei dirymu o dan gymal 1(1), drwy bennu mewn rheoliadau a wneir cyn 31 Hydref 2023. |
| 64 | Atodlen newydd: <i>Machlud is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir</i> | <p>Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod Atodlen newydd yn y Bil. Mae Rhan 1 yn rhestru'r is-ddeddfwriaeth ac mae Rhan 2 yn rhestru deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sydd i'w dirymu gan gymal 1(1) (fel y byddai'n cael ei ddiwygio gan welliant 1 Llywodraeth y DU a ystyrir uchod) ar ddiwedd 2023.</p> <p>Er nad ydym wedi cynnal dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer pob offeryn unigol sydd wedi ei restru yn yr Atodlen, mae rhai ohonynt o leiaf yn gymwys i Gymru o fewn meysydd datganoledig. Er enghraifft, mae</p> |

⁹ Mae'r gwelliannau wedi'u trefnu yn ôl y categorïau a amlinellir ym mharagraff 16 ar dudalen 3.

| | | |
|--|--|---|
| | | <p>Rhan 1 yn cynnwys Rheoliadau Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 1980 (O.S. 1980/1298), ac mae Rhan 2 yn cynnwys Penderfyniad gan y Comisiwn dyddiedig 21 Mehefin 2005 sy'n sefydlu grŵp rhwydwaith ar gyfer cyfnewid a chydgyssylltu gwybodaeth sy'n ymwneud â chydfodolaeth cnydau a addaswyd yn enetig, cnydau confensiynol a chnydau organig (2005/463/EC). Mae'r ddau yn gymwys i Gymru ac o fewn cymhwysedd datganoledig, ym maes amaethyddiaeth yn bennaf.</p> <p>Nid yw offerynnau 'a wnaed yng Nghymru' wedi eu cynnwys yn yr Atodlen newydd.</p> |
| 68 | Rhan 3 (Pwerau awdurdod cenedlaethol perthnasol: ymarfer ar wahân) o Atodlen 4 (Rheoliadau: gweithdrefn) | Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod darpariaeth yn Rhan 3 o Atodlen 4, sy'n pennu'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau gan awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gweithredu ar ei ben ei hun o dan y Bil, er mwyn darparu bod y pŵer yn y cymal 1(2) newydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. |
| Gwelliannau sy'n ymwneud â chymal 8 (Rôl llysoedd) | | |
| 24, 26, 27, 29 | Cymal 8: Rôl llysoedd | Mae'r gwelliannau hyn yn addasu cymal 8(8) fel y darperir y "caiff" llys dderbyn cyfeiriad ar bwynt cyfreithiol gan lys is, yn lle darparu bod "rhaid" (" <i>must</i> ") i lys dderbyn cyfeiriad o'r fath. |
| Gwelliannau sy'n ymwneud â darpariaethau canlyniadol a darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed | | |
| 52, 53, 66, 70, 72 | Cymal 20: Darpariaeth ganlyniadol Atodlen 4: Rheoliadau, Gweithdrefn | <p>Mae gwelliant 52 yn addasu cymal 20, sy'n cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, fel bod y pŵer hwnnw yn cael ei estyn i'r llywodraethau datganoledig, drwy ddileu cyfeiriadau at "Gweinidog y Goron" ("<i>Minister of the Crown</i>") a rhoi "awdurdod cenedlaethol perthnasol" ("<i>relevant national authority</i>") yn eu lle.</p> <p>Mae gwelliant 53 yn addasu cyfeiriad at "Gweinidog" ("<i>Minister</i>") i "awdurdod cenedlaethol perthnasol" ("<i>relevant national authority</i>"), o ganlyniad i welliant 52 uchod.</p> <p>Mae gwelliannau 66, 70 a 72 yn gwneud gwelliannau amrywiol i Atodlen 4, o ganlyniad i welliant 52, gan gynnwys</p> |

| | | |
|---|---|--|
| | | darparu bod y rheoliadau a wneir o dan gymal 20: (i) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft pan fo rheoliadau'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol; a (ii) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol pan na fo rheoliadau'n diwygio, yn diddymu nac yn dirymu deddfwriaeth sylfaenol. |
| 58 60, 54, 55, 56, 57 a 59, 65, 67, 77 | Cymal 23: Cychwyn, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed. Cymal 21: Rheoliadau: cyffredinol Atodlen 4: Rheoliadau, Gweithdrefn. | Mae gwelliant 58 yn addasu cymal 23, sy'n cynnwys pŵer i wneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed, fel bod y pŵer hwnnw yn cael ei estyn i'r llywodraethau datganoledig, drwy ddileu cyfeiriad at "Gweinidog y Goron" (" <i>Minister of the Crown</i> ") a rhoi "awdurdod cenedlaethol perthnasol" (" <i>relevant national authority</i> ") yn ei le. Mae gwelliannau 54, 55 a 56 yn gwneud gwelliannau amrywiol i gymal 21, o ganlyniad i welliant 58. Mae gwelliannau 57, 59 a 60 yn gwneud gwelliannau amrywiol i gymal 23, o ganlyniad i welliant 58. Mae gwelliannau 65, 66 a 77 yn gwneud gwelliannau amrywiol i Atodlen 4, o ganlyniad i welliant 58, gan gynnwys gwelliannau i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r rheoliadau hynny a wneir o dan gymal 23(4) yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn. |
| Gwelliannau'n ymwneud â chymal 24: Rychwant ac enw byr | | |
| 62 a 63 | Cymal 24: Rychwant ac enw byr | Mae'r gwelliannau hyn (i) yn addasu'r cymal 24(1) presennol, sy'n darparu bod y Bil yn rychwantu Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel ei fod yn ddarostyngedig i'r is-gymal 1A newydd; a (ii) yn mewnosod is-gymal 1A newydd, i ddarparu bod gan unrhyw ddiwygiad, diddymiad neu ddirymiad a wneir gan y Bil yr un rychwant yn y Deyrnas Unedig â'r ddarpariaeth y mae'n ymwneud â hi. |
| Gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 19 Mai | | |
| Cymal newydd (Dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir) | | |
| 1 | Cymal newydd (Dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir) | Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiweddarau dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir pan gaiff cyfraith yr UE a |

| | | |
|----------|---|--|
| | | ddargedwir ei dirymu a'i diwygio mewn cyfnodau hyd at 23 Mehefin 2026. |
| 2 | Cymal 22: Cychwyn, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed | Mae hyn yn diwygio cymal 22 i ddarparu bod cymal newydd (<i>Dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir</i>) yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Bil ei basio, o ganlyniad i welliant 1 uchod. |
| 3 | Atodlen 2: "Cyfraith a gymathwyd": gwelliannau canlyniadol | Mae hyn yn addasu Atodlen 2 i ddiweddarau cyfeiriadau yn y cymal newydd (<i>Dangosfwrdd ac adroddiad cyfraith yr UE a ddargedwir</i>) o "UE a ddargedwir" (" <i>retained EU</i> ") i "a gymathwyd" (" <i>assimilated</i> "), fel y bydd ar ôl diwedd 2023, o ganlyniad i welliant 1 uchod. |